

Cysylltiadau rhwng Casglu Data Deilliannau ar draws Rhaglenni Cefnogi Pobl a Thaclo Tlodi: Adroddiad Cwmpasu

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae rhaglen Cefnogi Pobl yn rhaglen ar gyfer Cymru gyfan sy'n darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed er mwyn eu helpu i ganfod a chadw cartref. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, sy'n talu i bob Awdurdod Lleol gaffael gwasanaethau er mwyn bodloni'r angen lleol yn eu hardal.

2. Amcanion a methodoleg yr ymchwil

- 2.1 Ers mis Mawrth 2012 mae Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl wedi cael ei sefydlu, a ddyluniwyd i gyflwyno tystiolaeth o'r gefnogaeth sy'n cael ei roi ac o effaith y gefnogaeth honno. Mae'r deilliannau yn rhan o ystod ehangach o offer a ddefnyddir i helpu Llywodraeth Cymru i ddeall sut mae'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio a hefyd er mwyn cyflwyno tystiolaeth o effaith Cefnogi Pobl o ran helpu i atal lefelau uwch o wariant mewn meysydd eraill, megis iechyd. Fel rhan o'r agenda Taclo Tlodi ehangach, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu deilliannau ar draws nifer o bortffolios a sut y gellir eu halinio'n well. Cymerwyd rhai camau ym Mawrth 2016 i alinio cyfnodau adrodd am ddeilliannau, ac mae mwy o waith alinio yn mynd rhagddo. Cynhaliwyd y darn bach yma o waith rhwng Hydref 2015 ac Ionawr 2016 er mwyn cael golwg gychwynnol ar:

- Y posibilrwydd o orgyffwrdd deilliannau rhwng Cefnogi Pobl a Rhaglenni Taclo Tlodi eraill;
- Sut mae Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn casglu deilliannau ar draws Rhaglenni Taclo Tlodi.

- 2.2 Yn ogystal â Chefnogi Pobl, mae'r rhaglenni Taclo Tlodi eraill sy'n gynwysedig yn yr astudiaeth hon yn cynnwys:

- Cymunedau'n Gyntaf:** Rhaglen Taclo Tlodi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gymunedau. Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth i'r bobl mwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r nod o gau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad a'r ardaloedd mwyaf cyfoethog, er mwyn taclo tlodi parhaus.
- Dechrau'n Deg:** Rhaglen 'blynnyddoedd cynnar' Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd gyda phlant o dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.

- **Teuluoedd yn Gyntaf:** Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddatblygwyd fel ymateb i'w strategaeth tlodi plant. Mae pwyslais y rhaglen ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Hefyd, bu i'r astudiaeth hon edrych ar y Fframwaith Deilliannau Cyffredin: Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn peilotu'r fframwaith hwn sy'n cynnwys dangosyddion sy'n gyffredin rhwng Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. (Sylwer: ym mis Chwefror 2016 bu i'r Gweinidog dros Gymunedau a Thaclo Tlodi bryd hynny benderfynu, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r cynllun peilot, i beidio â chyflwyno'r Fframwaith Deilliannau Cyffredin ar draws Cymru gyfan. Fodd bynnag, roedd gwaith maes ar y prosiect hwn eisoes wedi cael ei wneud ac mae'r canfyddiadau mewn perthynas â'r Fframwaith Deilliannau Cyffredin yn dal yn berthnasol i alinio yn y dyfodol ac maent yn cael eu cynnwys yma er mwyn cyflawnder).

2.3 Cynhaliwyd y prosiect mewn dau gam.

- (1) Mapio Deilliannau ar draws yr holl Raglenni Taclo Tlodi.
- (2) Cyfweiliadau mewn chwe ardal Awdurdod Lleol gyda phersonél allweddol mewn Awdurdodau Lleol ar draws y pedair Rhaglen Taclo Tlodi.

2.4 Bu i'r prosiect ddefnyddio dull astudiaeth achos, ac oherwydd hynny gellir ond ystyried bod y canfyddiadau a nodir yma yn ddangosol yn unig. Mae'r prosiect yn codi rhai pwyntiau i'w hystyried ond ni ellir ystyried eu bod yn cynrychioli'r sefyllfa ar draws yr holl Awdurdodau Lleol.

3. Canfyddiadau allweddol

Mapio Deilliannau

- 3.1 Nid yw'n syndod bod gan Gefnogi Pobl lefel uchel o ddeilliannau sy'n gyffredin â'r holl Raglenni Taclo Tlodi. Gyda Chymunedau'n Gyntaf y ceir y gorgyffwrdd mwyaf, gyda 10 o'r 11 deiliant Cefnogi Pobl yn gorgyffwrdd yn uniongyrchol ac yn sylweddol. Er enghraifft, mae gan Gymunedau'n Gyntaf ddeiliant *Hyrwyddo llesiant meddyliol*, sydd yr un fath i bob pwrpas â deiliant *Meddyliol lach* Cefnogi Pobl.
- 3.2 Bu i'r prosiect hefyd edrych yn fanylach ar y dangosyddion a defnyddiwyd ar draws y Rhaglenni Taclo Tlodi er mwyn gweld i ba raddau y gallai'r dangosyddion yma hefyd ddarparu tystiolaeth ar gyfer deilliannau Cefnogi Pobl. Yn yr achos hwn, gwahaniaethir rhwng dangosyddion 'uniongyrchol'; y rhai hynny all ddarparu tystiolaeth yn uniongyrchol (ac ar eu pennau eu hunain o bosibl) ar gyfer deiliant Cefnogi Pobl, a dangosyddion 'rhannol' na all ddarparu dangosiad digon cydnherth ar eu pennau eu hunain, er eu bod yn cyfrannu tuag at dystiolaeth o'r deiliant.
- 3.3 Mae'r deilliannau Cefnogi Pobl sy'n gorgyffwrdd fwyaf â'r Rhaglenni Taclo Tlodi eraill fel a ganlyn:
 - (1) Ymgysylltu mewn Cyflogaeth (25 o orgyffyrddiadau uniongyrchol: 22 â Chymunedau'n Gyntaf a 3 gyda Theuluoedd yn Gyntaf)
 - (2) Ymgysylltu Mewn Addysg a Dysgu (24 o orgyffyrddiadau uniongyrchol: 20 â Chymunedau'n Gyntaf a 4 gyda Theuluoedd yn Gyntaf)
 - (3) Rheoli Arian (10 o orgyffyrddiadau uniongyrchol: 9 â Chymunedau'n Gyntaf a 1 gyda Theuluoedd yn Gyntaf)
- 3.4 Yn gyffredinol, bu i'r mapio ganfod bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion o'r tair Rhaglen Taclo Tlodi eraill ellid eu defnyddio fel dangosyddion 'uniongyrchol' ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl wedi dod o Gymunedau'n Gyntaf. Eto, nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion ar gyfer Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar blant a riantu tra bod Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar gymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Casglu Data

- 3.5 Yr allwedd i ddeall proses casglu deilliannau yw deall y ffordd y maent yn cael eu casglu gan Awdurdodau Lleol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Amllder Cyflwyno

- 3.6 Pan gynhaliwyd yr ymchwil, roedd amrywiad o ran amledd cyflwyno gwybodaeth am ddeilliannau'r pedair rhaglen i arweinwyr rhaglenni Llywodraeth Cymru. Roedd timau Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau'n Gyntaf mewn Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu data yn chwarterol, roedd Dechrau'n Deg yn ei gyflwyno'n dymhorol (tymhorau ysgol) ac roedd Cefnogi Pobl yn ei ddarparu bob chwe mis. Fodd bynnag, ers cwblhau'r gwaith maes, deellir bod y gwaith alinio a wneir gan Lywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried amledd y casglu data deilliannau.

Dull o Gyflwyno

- 3.7 Ac eithrio'r timau Cymunedau'n Gyntaf, sy'n cyflwyno'r data drwy'r system casglu cronfa ddata a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a elwir yn 'Aspireview', mae'r tair rhaglen arall (Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl) yn cyflwyno'r wybodaeth gan ddefnyddio templedi taenlen Excel a ddarparwyd yn benodol iddynt gan yr arweinwyr rhaglenni perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

Profiad o Gasglu Data ar lefel Awdurdod Lleol

- 3.8 Gofynnwyd i'r holl gyfweleion am eu profiad o gasglu data ar lefel Awdurdod Lleol. Ni fu i bedwar o'r 19 cyfwelai (dau o Deuluoedd yn Gyntaf ac un o Gymunedau'n Gyntaf ac un o Dechrau'n Deg) adrodd am unrhyw broblemau gyda'r broses gasglu data, ond bu iddynt gymhwyso hynny drwy adrodd na fu problemau â'r broses tra defnyddiwyd y cronfeydd data, a cheir eglurder ynglŷn â beth sydd angen ei gasglu o'r cychwyn cyntaf.
- 3.9 Y broblem y cyfeiriwyd ati amlaf mewn perthynas â'r broses o gasglu data oedd yr amser a'r adnoddau oedd eu hangen i'w chwblhau. Bu i chwech o'r 19 tîm (tri o Gefnogi Pobl, un o Dechrau'n Deg a dau o Deuluoedd yn Gyntaf) ystyried bod angen treulio llawer o amser ar y broses a defnyddio llawer o adnoddau. Oherwydd bod cyfanswm o chwe thîm Cefnogi Pobl a phedwar tîm Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael eu cyfweld, mae hynny'n golygu bod hanner y rhaglenni Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf yn y chwe Awdurdod Lleol oedd yn rhan o'r astudiaeth achos yn ystyried bod angen treulio llawer o amser ar y broses gasglu data. Er na ellir ystyried bod hynny'n cynrychioli'r holl dimau Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru, mae'n arwydd bod amser ac adnoddau yn broblemau posibl i'r rhai sy'n casglu'r data.

Systemau Casglu Data

- 3.10 Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni yn ardaloedd yr astudiaeth achos yn defnyddio systemau meddalwedd er mwyn casglu eu data deiliant, gyda dim ond chwech yn defnyddio taenlenni Excel. Mae'r math o system a ddefnyddiwyd yn wahanol ar draws y rhaglenni mewn Awdurdodau Lleol unigol, er enghraifft mae un Awdurdod Lleol yn defnyddio Excel ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf ond mae'n defnyddio cyfuniad o bum system meddalwedd arall ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl.
- 3.11 Mae cyfanswm o 11 o wahanol systemau yn cael eu defnyddio ar draws rhaglenni gwahanol yn y chwe Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r astudiaeth achos. O'r wybodaeth a gasglwyd, nid yw'n ymddangos bod unrhyw Awdurdod Lleol yn ffafrio un system benodol ar draws yr holl raglenni. Ac eithrio Excel, a ddefnyddir gan y pedair rhaglen, a PARIS, a ddefnyddir gan un Teuluoedd yn Gyntaf ac un Dechrau'n Deg, nid oes unrhyw arwydd bod gan Awdurdodau Lleol na Rhaglenni Taclo Tlodi systemau sy'n gyffredin.
- 3.12 Mae yna rai arwyddion bod Awdurdodau Lleol yn cymryd camau i ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r un systemau. Yn anecdotaidd, dywedwyd:

'Roedd [y feddalwedd] ar gael. Rwy'n credu y dechreuodd ALI1 ei defnyddio ac yna bu i nifer o Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r gronfa ddata ac fe'i hyrwyddwyd yn fewnol ym maes Cymunedau'n Gyntaf.'

4. Casgliadau/Argymhellion

Casgliadau

- 4.1 Prosiect graddfa fechan oedd hwn ac mae'n cynnig golwg gyntaf ar rai o'r problemau posibl a'r meysydd i roi sylw iddynt wrth alinio Cefnogi Pobl â'r tair Rhaglen Taclo Tlodi arall. Mae'r casgliadau a nodir yma yn crynhoi'r hyn a ganfu'r prosiect, ond dangosol yn unig ydynt ac ni ellir ystyried eu bod yn bendant yn cynrychioli'r sefyllfa ar draws y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.
- 4.2 Bu i'r prosiect ganfod amrywiadau yn strwythur y deilliannau ac yn nifer a lefel y dangosyddion ategol (mesuriadau perfformiad etc.) ar draws y pedair Rhaglen Taclo Tlodi. Mae iaith yn fater arall, yn benodol ynghylch a ellir defnyddio termau megis 'mesuriadau perfformiad', 'dangosyddion' a 'mesurau' yn gydgyfnewidiol ac a ellir ystyried eu bod yr un fath yn eu hanfod. Byddai angen datrys yr amwysedd hwn os bydd mwy o alinio yn mynd rhagddo.
- 4.3 Fodd bynnag, byddai'r ymarferiad mapio yn awgrymu y gallai mwy o alinio rhwng Cymunedau'n Gyntaf a Cefnogi Pobl fod yn bosibl. Er bod yna lai o orgyffwrdd uniongyrchol, byddai alinio hefyd yn bosibl ar draws y pedair Rhaglen Taclo Tlodi, er y byddai angen peth hyblygrwydd. Bu i'r astudiaeth ganfod y gallai alinio o bosibl helpu i ddatrys rhai o'r problemau yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas ag amser ac adnoddau, oherwydd gellid casglu deilliannau un waith a'u defnyddio ar draws rhaglenni lluosog. Byddai'n rhaid i'r deilliannau a rennir gynnig tystiolaeth ar gyfer yr holl Raglenni Taclo Tlodi, a gallai hynny fod yn anodd o ystyried ffocws penodol iawn Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ar blant ifanc a theuluoedd.
- 4.4 Ar draws y Rhaglenni Taclo Tlodi, mae data yn cael ei gyflwyno ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, gan amrywio o fod yn dymhorol i bob chwe mis, felly ar hyn o bryd nid yw'r prosesau o adrodd i Lywodraeth Cymru yn gydnaws. Fodd bynnag, ers cynnal yr astudiaeth hon, deallir bod y gwaith alinio a wneir gan Lywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried amledd y casglu data deilliannau. Hefyd, oherwydd bod y rhan fwyaf o Raglenni Taclo Tlodi yn defnyddio Excel i gyflwyno eu data, gall y *dull* ar draws yr holl raglenni, ac eithrio Cymunedau'n Gyntaf, sy'n adrodd drwy gyfrwng Aspireview, fod yn gydnaws.
- 4.5 Mewn perthynas â'r broses o gasglu a chyflwyno data, roedd y prif bryderon a fynegwyd ar draws y pedair Rhaglen Taclo Tlodi yn ymwneud ag amser ac adnoddau a faint o wybodaeth oedd ei angen. Mae'n bosibl y gallai alinio arwain at ostyngiad yn hyn o beth, oherwydd gellid defnyddio un dangosydd ar gyfer mwy nag un Rhaglen Taclo Tlodi.
- 4.6 Roedd y systemau data a ddefnyddiwyd i gasglu a chofnodi data mewn perthynas â Rhaglenni Taclo Tlodi yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf yn defnyddio rhyw fath o system gasglu data, naill ai system bwrpasol neu system oddi ar y silff. Fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth o ffafrio un system yn benodol gan unrhyw Awdurdod Lleol na'r Rhaglenni Taclo Tlodi eu hunain. Fel y nodwyd eisoes, prosiect graddfa fechan oedd hwn ac ni ellir ystyried bod y canfyddiadau'n cynrychioli Cymru gyfan, ond mae'n dangos na ffafrir unrhyw systemau penodol gan unrhyw Awdurdod Lleol na Rhaglen Taclo Tlodi. Gall amrywiad o'r fath mewn systemau achosi anawsterau o ran alinio systemau casglu data, yn arbennig pan fo systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gysylltiedig â gweithgareddau eraill yr Awdurdodau Lleol.
- 4.7 Gan y rhai a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil yma, cafwyd rhai arwyddion o gysylltiadau a gweithio ar y cyd rhwng timau Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Cafwyd ychydig iawn o dystiolaeth o weithio ar y cyd rhwng y rhaglenni yma a Cefnogi Pobl, er yr adroddwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn datblygu cysylltiadau agosach.

- 4.8 Bu i dimau Cefnogi Pobl adrodd am gysylltiadau â thimau Opsiynau Tai ac fel arall, gan adrodd hefyd am berthnasoddd gweithio da, yn cynnwys cydleoli rhai timau.
- 4.9 Hefyd dylid nodi y cynhaliwyd yr astudiaeth hon cyn i Lywodraeth Cymru gychwyn prosiect alinio rhwng y rhaglenni Cymunedau a Thaclo Tlodi, ac felly diystyrwyd rhai o'r canfyddiadau o ganlyniad i gamau a gymerwyd ers hynny. Felly mae'r adroddiad yma wedi cael ei ddiweddarau ble mae hynny'n berthnasol.

Argymhellion

- 4.10 Gwnaethpwyd yr argymhellion isod cyn cychwyn y prosiect alinio, neu cyn atal cyflwyno'r Fframwaith Deilliannau Cyffredin.
- 4.11 Gall alinio fod yn bosibl, ond mae angen i unrhyw ddeilliannau ar y cyd naill ai fod yn uniongyrchol gymwys i'r holl Raglenni Taclo Tlodi a bod yr holl Raglenni fel ei gilydd yn gallu eu defnyddio fel tystiolaeth, neu dylid bod yn glir mai dim ond y deilliannau perthnasol ar gyfer unigolyn sydd angen cefnogaeth a ddylid eu dewis.
- 4.12 O ystyried nifer y systemau data a ddefnyddir ar hyn o bryd, bydd angen ymgynghori sylweddol ar draws yr holl Awdurdodau Lleol a'r Rhaglenni Taclo Tlodi wrth ddatblygu cronfa ddata safonedig er mwyn sicrhau bod y galluoedd technegol a'r defnydd gweinyddol a'r cysylltiadau yn cael eu deall yn iawn.
- 4.13 Hefyd, dylid datblygu templed adroddiadau Excel safonedig a'i ddefnyddio fel y prif offeryn adrodd yn y cyfamser, tra bod y gwaith o gwmpasu'r system gasglu data fwyaf priodol yn cael ei wneud. Gellid cyflwyno hynny unwaith i Lywodraeth Cymru, ond gallai timau Rhaglenni Taclo Tlodi lluosog ei defnyddio. Er y byddai'r system gasglu data newydd yn ymgymryd â'r rôl yma, byddai defnyddio taenlen safonedig yn galluogi i alinio ddigwydd yn gyflymach. Gallai hefyd weithredu fel 'cynllun peilot' ar gyfer y broses newydd. Yna gellid gwerthuso'r cynllun peilot a dichonolrwydd alinio cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad sylweddol.
- 4.14 Mae'n bwysig datblygu cronfa ddata safonedig ar draws yr holl Raglenni Taclo Tlodi p'un a yw'r alinio yn digwydd neu beidio. Gall hynny helpu i liflinio'r rhaglenni yn well tra'n galluogi mwy o weithio ar y cyd a thorri ar fiwrocratiaeth yn yr Awdurdodau Lleol a'r darparwyr gwasanaeth.

Awduron yr Adroddiad: Arshi Samar Iqbal

Safbwyntiau'r ymchwiliwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Lucie Griffiths

Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk